




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Adroddiad Blynyddol Sgrinio Cyn Geni Cymru 2018-2019



Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales

Amdanom ni

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.

Rydym yn rhan o'r GIG ac yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau Cymru iachach, hapusach a thecach. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol, gyda'n partneriaid ac ar draws cymunedau yn y meysydd canlynol:

Diogelu iechyd — darparu gwybodaeth a chyngor a chymryd camau i ddiogelu pobl rhag clefyd trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol

Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig — cryfhau effaith iechyd y cyhoedd drwy bolisi, comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau

Microbioleg — darparu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg sy'n cynorthwyo diagnosis o glefydau heintus a'u rheoli

Diogelu — darparu arbenigedd a chyngor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed

Sgrinio — darparu rhaglenni sgrinio sy'n cynorthwyo canfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin

Gwybodaeth iechyd — dadansoddi data iechyd y cyhoedd, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth

Gwella ansawdd a diogelwch cleifion y GIG — darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r GIG i wella canlyniadau cleifion

Polisi, ymchwil a datblygu rhyngwladol — dylanwadu ar bolisi, cynorthwyo ymchwil a chyfrannu at ddatblygu iechyd yn rhyngwladol

Gwella iechyd — gweithio ar draws asiantaethau a darparu gwasanaethau i'r boblogaeth er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd

Rhagor o wybodaeth

Gwefan: icc.gig.cymru
E-bost: ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk
Twitter: [@IechydCyhoeddus](https://twitter.com/IechydCyhoeddus)
Facebook: facebook.com/iechydcyhoedduscymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg heb oedi.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	4
1. Cyflwyniad.....	6
2. Y tîm	7
3. Cynllun gweithredu.....	8
4. Yr hyn y mae'r tîm wedi'i gyflawni yn 2018-2019.....	9
5. Rhaglenni penodol	19
6. Casgliad.....	31
Atodiad 1	32

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad canlynol yn amlinellu gwaith Sgrinio Cyn Geni Cymru rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Mae'r adroddiad cryno hwn yn amlygu cyflawniadau'r tîm sy'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws Cymru, ac yn esbonio'r amrywiaeth eang o waith a gwblhawyd mewn perthynas â'r wyth rhaglen sgrinio cyn geni.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Sgrinio Cyn Geni Cymru sefydlu polisïau, safonau a fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer y profion sgrinio cyn geni a ddarperir gan y gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am ddarparu sgrinio yn unol â'r polisïau a'r safonau fel rhan o ofal cyn geni arferol.

Mae adolygiad llawn o Bolisïau, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi'i gynnal a bwriedir ei gyhoeddi ym mis Awst 2019. Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi mabwysiadu polisïau, safonau a phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod gan fenywod fynediad teg i wasanaethau arfer gorau ledled Cymru.

Rheoli Perfformiad

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â grŵp eang o randdeiliaid ledled Cymru a'r DU i fonitro'r safonau a'r protocolau ar gyfer sgrinio cyn geni. Mae monitro safonau'n digwydd drwy adrodd ar ddangosyddion perfformiad neu archwilio rheolaidd. Caiff canlyniadau'r rhain eu bwydo yn ôl i'r byrddau iechyd a llunnir cynlluniau gweithredu pan nad yw'r perfformiad yn cyrraedd y safon. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cwrdd â gweithwyr iechyd proffesiynol allweddol ym mhob bwrdd iechyd i drafod yr adroddiad ar ddangosyddion perfformiad yn rheolaidd. Mae cydweithwyr yn y byrddau iechyd yn datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer y meysydd a nodwyd sydd angen eu gwella. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cefnogi datblygu a hyfforddiant parhaus i reoli'r rhaglenni yn y bwrdd iechyd. Adolygir y wybodaeth i fenywod yn flynyddol, a gwneir diwygiadau pan gyflwynir tystiolaeth newydd.

Amlygir canfyddiadau allweddol ar gyfer y rhaglenni canlynol:

Clefyd y crymangelloedd a thalasaemia

Cynhaliwyd archwiliad ciplun i fonitro pa mor gyflawn oedd y cardiau cais yn labordai'r byrddau iechyd yn ystod mis Gorffennaf 2018. Lluniodd Sgrinio Cyn Geni Cymru declyn addysgu i gydlynwyr sgrinio cyn geni i'w galluogi i adrodd yn ôl i'r gweithwyr iechyd proffesiynol am bwysigrwydd llenwi'r cerdyn cais yn gywir.

Syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi llwyddo i arwain ar waith y byrddau iechyd i weithredu llwybr sgrinio newydd ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau mewn beichiogrwydd unigol a gefeilliaid yng Nghymru. Cyflwynwyd y cynnig o Brawf Cyn Geni Anfewnwthiol fel prawf wrth gefn ar gyfer beichiogrwydd babanod unigol tebygolrwydd uwch a chafodd y newidiadau hyn eu gweithredu ar 30 Ebrill 2018.

Mae gwerthusiad tair blynedd parhaus o'r Rhaglen wedi dechrau ar ôl hynny. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i weithredu argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC). Mae'r wybodaeth cyn prawf i fenywod wedi cael ei hadolygu yn dilyn gwaith grŵp ffocws gyda menywod i sicrhau bod gwybodaeth yn galluogi menywod i wneud dewis gwybodus personol a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu penderfyniad.

Uwchsain

Mae'r gwaith monitro chwemisol o'r mesuriadau uwchsain ar gyfer pob prawf sgrinio syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau, drwy'r Gwasanaeth Cefnogi Sicrwydd Ansawdd Syndrom Down (DQASS) yn cael ei ddadansoddi a'i adrodd yn ôl i'r sonograffwyr unigol drwy Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae'r rhaglen yn parhau i weithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) i ddatblygu'r System Gwybodaeth Radioleg (RadIS) sef modiwl cofnodi ar gyfer archwiliadau radioleg gan gynnwys sganiau obstetreg uwchsain i sicrhau bod y cofnodi yn gyson ledled Cymru, sy'n symleiddio'r broses o gasglu a dadansoddi data at ddibenion archwilio.

Sgrinio grŵp gwaed a gwrthgyrff

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi dechrau trafodaethau gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru ar brosiect i bennu cwrdd a datblygu llwybr gwell ar brawf DNA y ffetws di-gell ar gyfer pob menyw feichiog yng Nghymru sy'n RhD negatif ac nad yw eisoes wedi'i sensiteiddio i antigen D.

1. Cyflwyniad

Mae gwasanaethau mamolaeth Byrddau Iechyd Cymru yn darparu profion sgrinio cyn geni i fenywod beichiog fel rhan o'u gofal cyn geni arferol. Mae gwahanol resymau dros ddarparu profion sgrinio cyn geni, sy'n golygu bod sgrinio cyn geni yn rhaglen gymhleth, gyda nifer o ddibenion gwahanol ac ystyriaethau a goblygiadau moesegol unigryw.

Diben y rhaglen sgrinio cyn geni yng Nghymru yw:

canfod cyflwr difrifol ddiffiniedig ar y fam neu'r babi sy'n debygol o gael effaith ar iechyd y naill neu'r llall, ac y mae ymyrraeth effeithiol ar gael ar ei gyfer. Ar gyfer rhai cyflyrau, mae triniaeth ataliol ar gael yn ystod y cyfnod cyn geni neu ar ôl rhoi genedigaeth er mwyn gwella iechyd y babi. I eraill, gellir adnabod y cyflwr yn ystod y cyfnod cyn geni, ond nid oes triniaeth ataliol ar gael. O dderbyn gwasanaeth cwnsela o ansawdd uchel, gall menywod wneud dewis personol ynglŷn â pharhau â'r beichiogrwydd. Dylid cynnig cymorth priodol i fenywod pa bynnag ddewis a wnânt.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi darparu Rhwydwaith Rheolaeth Glinigol Cymru gyfan ar gyfer sgrinio cyn geni ers 2003. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Sgrinio Cyn Geni Cymru sefydlu polisiâu, safonau a fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer y profion sgrinio cyn geni a ddarperir gan y gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn rhan o Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac mae wedi bod yn rhan o Raglenni Sgrinio i Famau a Phlant ers 2014 (gweler atodiad 1). Y Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol ac is-grwpiau'r rhaglen benodol sy'n darparu'r trefniadau llywodraethu. Nid yw Sgrinio Cyn Geni Cymru yn darparu, nac yn rheoli'n uniongyrchol, unrhyw wasanaethau sgrinio cyn geni.



2. Y tîm

Yn ystod 2018-2019, newidiodd cyfansoddiad y tîm Cymru gyfan. Mae'r tîm yn cynnwys:

- Pennaeth Rhaglen (1.0wte) ar gyfer y 3 rhaglen sgrinio i Famau a Phlant
- 3 Chydlynnydd Rhanbarthol – 3 bydwraig (2.8wte)
- 1 Cydlynnydd Sgrinio Obstetreg Uwchsain (0.4wte)
- Rheolwr Cymorth i'r Rhaglen (1.0wte) ar gyfer y 3 rhaglen sgrinio i Famau a Phlant
- Cymorth Gweinyddol (2.4wte) i Sgrinio Cyn Geni Cymru a Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru (NBSW)



3. Cynllun gweithredu

Dilynodd tîm gynllun gweithredu yn ystod 2018-2019 a oedd yn cynnwys y meysydd canlynol:

Archwilio

Y broses o gwblhau'r cerdyn cais
am brawf sgrinio ar gyfer clefyd y
crymangelloedd a thalasaemia
Y broses o gwblhau'r cerdyn cais
am syndrom Down, syndrom
Edwards a syndrom Patau
Mesuriadau a delweddau penodol
ar y sgan anomaledd
Profiad defnyddwyr gwasanaethau
chwemisol

Datblygu

Diwygio'r pecynnau addysg i
fydwagedd dan hyfforddiant ar
gyfer egwyddorion sgrinio a sgrinio
cyn geni
Rôl arweinydd llywodraethu'r
rhaglenni sgrinio i famau a phlant
Rôl arweinydd cardiaidd y ffetws
Grwpiau ffocws ar gyfer adolygu'r
daflen cyn prawf, `Sgrinio ar gyfer
syndrom Down, syndrom Edwards

Newidiadau i'r rhaglen a llwybr sgrinio syndrom Down

Adolygu

Taflenni gwybodaeth i fenywod
cyn ac ar ôl prawf
Polisïau, Safonau a Phrotocolau
Sgrinio Cyn Geni Cymru 2015
Dadansoddiad chwemisol o'r
adroddiad Gwasanaeth Cefnogi
Sicrwydd Ansawdd Down (DQASS)
Dewislen sylfaenol Sgrinio Cyn
Geni Cymru ar gyfer cofnodi sgan
anomaledd
Llawlyfr Sgrinio ar gyfer
Bydwagedd

Rheoli Perfformiad

Adroddiad dangosyddion
perfformiad chwemisol
Ymweliadau bwrdd iechyd ar ôl
adroddiadau ar ddangosyddion
perfformiad
Adolygu delwedd sgan uwchsain
Sicrwydd ansawdd i sonograffwyr
Cymorth parhaus i sonograffwyr
Gweithio gyda rhanddeiliaid

4. Yr hyn y mae'r tîm wedi'i gyflawni yn 2018-2019

4.1.1 Adolygiad o Bolisïau, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru

Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi mabwysiadu polisïau, safonau a phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae hyn yn galluogi menywod yng Nghymru i gael gafael ar wasanaethau sy'n gweithio yn ôl arferion gorau ac mae'n sicrhau gwasanaeth sgrinio cyn geni teg.

Ar ôl cael ei adolygu'n llawn yn flaenorol yn 2015, dechreuodd proses gadarn o adolygu Polisïau, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru ym mis Medi 2018.

Roedd camau'r broses adolygu yn cynnwys:

Cafodd yr holl newidiadau arfaethedig a wnaed yn dilyn adolygiad mewnol gan dîm Sgrinio Cyn Geni Cymru eu trafod a chytunwyd arnynt gydag aelodau'r is-grŵp perthnasol.

Yn dilyn adolygiad mewnol a rhanddeiliaid, cafodd Polisïau, Safonau a Phrotocolau 2019


diwygiedig Sgrinio Cyn Geni Cymru eu hanfon ar gyfer ymgynghoriad ehangach chwe wythnos ac roeddent ar gael i roi sylwadau arnynt ar wefan Sgrinio Cyn Geni Cymru. Roedd y grŵp ymgynghori ehangach yn cynnwys Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, arweinwyr byrddau iechyd y GIG, Colegau Brenhinol a sefydliadau o'r trydydd sector.

Cafodd pob sylw a gafwyd ei ystyried a chafodd ymatebion ffurfiol eu hanfon yn dilyn cadarnhad a chyhoeddi.


Bwriedir cyhoeddi [Polisïau, Safonau a Phrotocolau 2019](#) Sgrinio Cyn Geni Cymru ar 5 Awst 2019.

4.1.2 Adolygiad o'r llawlyfr sgrinio i fydwagedd a'r llawlyfr obstetreg uwchsain

Mae'r Llawlyfr Sgrinio ar gyfer Bydwagedd a'r Llawlyfr Uwchsain ar gyfer Sonograffwyr sy'n Darparu'r Rhaglen Sgrinio Cyn Geni yng Nghymru



wedi'u hadolygu yn unol â Pholisïau, Safonau a Phrotocolau 2019 Sgrinio Cyn Geni Cymru sydd wedi'u diweddarau. Mae dogfen crynodeb o newid wedi'i hychwanegu at y ddau lawlyfr er mwyn tynnu sylw at unrhyw newidiadau.




4.1.3 Polisiau, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru 2019 Diweddariad addysg

Yn seiliedig ar yr adolygiad a newidiadau i Bolisiau, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru 2019, mae cyflwyniad power point wedi'i ddatblygu i gynorthwyo byrddau iechyd i ddarparu addysg mewn gwasanaeth yn lleol. Caiff hyn ei ledaenu i gydlynwyr sgrinio cyn geni byrddau iechyd ac arweinwyr llywodraethu rhaglenni sgrinio i famau a phlant.

Mae'r cyflwyniad yn dangos tystiolaeth o unrhyw newidiadau i Bolisiau, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru ac mae hefyd yn gyfle i faterion sy'n benodol i fyrddau iechyd gael eu hychwanegu i'w trafod. Bydd ei ddefnydd yn:

- sicrhau bod gan yr holl weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â sgrinio cyn geni wybodaeth gyfredol am y profion sgrinio cyn geni a gynigir i fenywod yn eu byrddau iechyd
- sicrhau bod trafodaethau gyda menywod cyn ac ar ôl y prawf yn gyson
- cefnogi trefniadau llywodraethu clinigol



4.2 Gwaith ar draws y rhaglenni

4.2.1 Gweithio gyda rhanddeiliaid

Head of Midwifery Advisory Group (HOMAG)

Aeth Pennaeth y Rhaglen a Chydlynwyr Rhanbarthol Sgrinio Cyn Geni Cymru i gyfarfod y Grŵp Cyngori Penaethiaid Bydwreigiaeth (HOMAG) a darparu papur cryno i roi gwybodaeth am y ffrydiau gwaith a chynnal trafodaethau ynglŷn â'r gweithio mewn partneriaeth rhwng Sgrinio Cyn Geni Cymru a'r byrddau iechyd. Mae cynrychiolydd o HOMAG hefyd yn aelod o Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Labordai

Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019, bu cyfathrebu cyson rhwng Sgrinio Cyn Geni Cymru a'r labordai a restrir isod a chymerodd ran mewn gwaith yn ymwneud yn benodol â'r rhaglenni:

- Labordai hemoglobinopathi
- Labordy Sgrinio Syndrom Down a'r DQASS (Gwasanaeth Cefnogi Sicrhau Ansawdd Syndrom Down)
- Labordai firoleg a microfiroleg
- Geneteg Feddygol Cymru Gyfan
- Gwasanaeth Gwaed Cymru

Rhaglenni sgrinio cenedlaethol y DU

Mae Cyfarwyddwr Sgrinio ac Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd ar gyfer y Rhaglen Sgrinio Cyn Geni yn cadeirio'r cyfarfod Iechyd y Ffetws a'r Fam a'r Plentyn sy'n grŵp cyngori ar gyfer Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU.

Mynychodd cydlynwyr rhanbarthol Sgrinio Cyn Geni Cymru gyfarfodydd Public Health England yn ymwneud â'r canlynol:

Rhaglen Sgrinio Clefydau

Heintus yn ystod

Beichiogrwydd (IDPS)

Rhaglen Sgrinio Clefyd y

Crymangelloedd a Thalasaemia

Grŵp Cyngori Rhaglen Sgrinio

Anomaledau'r Ffetws (FASP)

Is-grŵp Labordy ac Uwchsain

FASP

Bwrdd Prosiect Prawf Cyn Geni

Anfewnwthiol (NIPT) FASP

Is-grŵp Gwybodaeth ac Addysg

i Gleifion FASP NIPT

Grŵp Data FASP NIPT

Cyfarfodydd gwasanaeth radioleg

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi mynychu gwaith sy'n ymwneud yn benodol ag uwchsonograffeg a chymryd rhan yn y gwaith hwn:


- Cyfarfod rheoli System Gwybodaeth Radioleg Cymru
- Cymdeithas Uwchsain Meddygol Prydain (BMUS)

Grŵp penaethiaid addysgwyr bydwreigiaeth (HOMed) a phrifysgolion

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn rhoi hyfforddiant ar y rhaglenni sgrinio cyn geni i fydwreigedd dan hyfforddiant yn y pedair prifysgol yng Nghymru. Roedd y rhaglenni Sgrinio Mamau a Phlant a Grŵp Penaethiaid Addysgwyr Bydwreigiaeth (HOMed) yn awyddus i sicrhau bod yr addysg i fydwreigedd dan hyfforddiant yn cael ei chynnig mewn modd cyson ar gyfer y tair rhaglen sgrinio i famau a phlant. Darperir dau hanner diwrnod o hyfforddiant ar gyfer y pedair prifysgol yng Nghymru lle mae pob un o'r rhaglenni sgrinio i famau a phlant yn rhoi diweddariadau sgrinio.

4.2.2 Sesiynau addysg i fydwreigedd dan hyfforddiant

Er mwyn paratoi ar gyfer sesiynau addysg i fydwreigedd dan hyfforddiant 2018-2019, cafodd myfyrwyr eu gwahodd i gwblhau pecyn e-ddysgu Sgrinio Cyn Geni Cymru ar syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau cyn mynd i gyflwyniad wyneb yn wyneb. Galluogodd hyn sesiynau hyfforddiant rhyngweithiol, a oedd wedi'u hawgrymu mewn adborth gan fyfyrwyr. Rhoddodd hyn amser i ganolbwyntio ar gwestiynau sy'n codi o becyn e-ddysgu sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau a gwaith grŵp penodol ar gyfathrebu a chydsyniad ar sail gwybodaeth.



4.2.3 Cynhadledd bydwreidded dan hyfforddiant

Gwahoddwyd Sgrinio Cyn Geni Cymru i fynd i Gynhadledd Bydwreidded dan Hyfforddiant Cymru Gyfan ym mis Mai 2018. Cynhaliwyd y digwyddiad gan gymdeithas bydwreigiaeth Prifysgol De Cymru ac roedd llawer o fyfyrwyr bydwreigiaeth o bob rhan o'r DU yn bresennol.



Roedd y rhaglenni sgrinio i Famau a Phlant/Sgrinio Cyn Geni Cymru ar gael i amlygu adnoddau gwybodaeth a mynd i'r afael ag ymholiadau sgrinio yn ystod y gynhadledd ac fe'u gwahoddwyd wedyn i fynd i gynhadledd 2019.



4.2.4 Egwyddorion y diweddariad addysg sgrinio

Cafodd adolygiad o gyflwyniad Egwyddorion Sgrinio generig y rhaglen sgrinio i Famau a Phlant ei gynnal mewn cydweithrediad â'r rhaglenni sgrinio eraill i Famau a Phlant er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth bydwreidded dan hyfforddiant o gydsyniad ar sail gwybodaeth.



4.2.5 Arweinwyr Llywodraethu'r Rhaglenni Sgrinio i Famau a Phlant

Mae'r byrddau iechyd yng Nghymru wedi nodi arweinydd llywodraethu enwebedig ar gyfer Sgrinio Mamau a Phlant. Mae'r rolau hyn yn rheoli'r llywodraethu strategol ar gyfer y rhaglenni sgrinio i Famau a Phlant ym mhob bwrdd iechyd



ac maent yn cael eu cyllido gan raglenni sgrinio i Famau a Phlant am un diwrnod yr wythnos. Mae'r arweinwyr llywodraethu yn cwrdd â Sgrinio Cyn Geni Cymru bob chwarter i drafod materion llywodraethu perfformiad rhaglenni a rhoi cymorth i'w gilydd o fewn y rôl hon. Mae arweinydd llywodraethu bwrdd iechyd yn cynrychioli'r grŵp yng nghyfarfodydd Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru, yr is-grŵp a'r ffrydiau gwaith.

4.3 Gweithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd



Cydlynwyr sgrinio cyn geni

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cwrdd yn rheolaidd, ac yn gweithio'n agos gyda chydlynwyr sgrinio cyn geni'r byrddau iechyd, arweinwyr uwchsain obstetreg, arweinwyr uwchsain cardiaidd y ffetws ac arweinwyr uwchsain tryloywder y gwegil (NT) i roi cyngor proffesiynol

i'r Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol Cymru Gyfan am holl agweddau'r rhaglenni sgrinio cyn geni yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys rheoli perfformiad a materion yn ymwneud â risg rhaglenni lefel uchel, ar y cyd â'r arweinydd llywodraethu Mamau a Phlant.



Arweinwyr obstetreg uwchsain ac arweinwyr NT

Rheolwyr gwasanaeth radioleg

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn gweithio gyda rheolwyr gwasanaeth radioleg y byrddau iechyd ar faterion ansawdd yn ymwneud â materion uwchsain sgrinio cyn geni. Mae hyn yn cynnwys edrych ar ddulliau mwy cadarn a syml o adfer data, a chysylltu'n uniongyrchol â'r arweinwyr obstetreg uwchsain pan fo problemau'n codi gyda pherfformiad sonograffwyr Cymru gyfan sy'n cael ei fonitro drwy DQASS.

4.4 Ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol

Taflen wybodaeth fe ddywedoch chi, fe wnaethon ninnau i dadau

Dywedoch chi

Dywedodd cydlynwyr sgrinio cyn geni y byddai'n fuddiol cael taflen i dadau pan fyddant yn cael cynnig sgrinio am glefyd y crymangelloedd a thalasaemia

Gwnaethom ni

Gwnaethom ofyn am ganiatâd gan PHE a

Dywedoch chi

Roedd yn well gennych i ni siarad am "eich babi" yn hytrach na dweud "y babi"

Gwnaethom ni

Gwnaethom newid y geiriad yn ein taflenni gwybodaeth i fenywod



Profiad defnyddwyr gwasanaethau

Er mwyn monitro gwelliannau i wasanaethau cafodd mamau newydd eu gwahodd i gwblhau arolwg defnyddwyr gwasanaethau chwemisol. Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau craidd am bob un o'r rhaglenni sgrinio i Famau a Phlant. Cafodd tua 300 o arolygon eu dosbarthu mewn cyfnodau o ddwy wythnos yn ystod mis Medi 2018 a mis Ebrill 2019 gyda chyfradd ddychwelyd o 96% a 99% yn y drefn honno. Mae canlyniadau'r arolwg yn cael eu dadansoddi gan Sgrinio Cyn Geni Cymru a chânt eu bwydo'n ôl i arweinwyr llywodraethu rhaglenni sgrinio i Famau a Phlant yn y byrddau iechyd.

"Roedd y staff bob amser yn dda am esbonio'r gweithdrefnau ac yn fwy na pharod i helpu os oeddem am gael rhagor o wybodaeth"

"Sgan 20 wythnos, byddwn wedi hoffi cael rhagor o wybodaeth am yr hyn y gallem ei weld"

Mae'r arolwg hefyd yn gyfle i gael adborth ansoddol ar ffurf sylwadau testun rhydd sy'n ymwneud yn bennaf â'r byrddau iechyd sy'n darparu'r sgrinio.

Taflenni gwybodaeth cyn prawf i fenywod

Cynhaliwyd adolygiad blynyddol o'r llenyddiaeth sydd ar gael i fenywod. Gwnaed diwygiadau lle'r oedd y canllawiau presennol wedi newid. Cydweithiodd Sgrinio Cyn Geni Cymru â rhanddeiliaid i sicrhau bod y taflenni wedi eu diwygio yn unol â'r ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf.



Sicrhau bod y gwefannau'n gyfredol

Adolygu gwefan Sgrinio Cyn Geni Cymru

Mae adolygiadau o dudalennau proffesiynol a chyhoeddus gwefan Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi'u hymgorffori yn y cynllun gweithredu, ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn hwyluso'r broses o lywio ar y wefan a sicrhau bod y wybodaeth yn gywir. Yn ystod yr amserlen hon, mae'r ddogfen ymgynghori ar Bolisïau, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi'i rhyddhau ar y wefan am gyfnod o ymgynghori cyhoeddus cyn ei chyhoeddi.



Ar rannau cyhoeddus a phroffesiynol y wefan, mae dolen i ffurflen adborth wedi'i darparu. Mae'r cyfle i geisio adborth pellach gan ddefnyddwyr gwasanaethau wedi ei ddefnyddio hefyd drwy ofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau lenwi arolwg ar-lein ynglŷn â pheth gwybodaeth newydd i fenywod sydd wedi'i chynnwys ar y wefan.

Adolygiad o wefan Galw Iechyd Cymru

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Galw Iechyd Cymru i sicrhau bod y wybodaeth am sgrinio cyn geni a gyhoeddir ar eu gwefan yn adlewyrchu'r rhaglenni sgrinio cyn geni yng Nghymru.



4.5 Rheoli perfformiad a llywodraethu yn y byrddau iechyd

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn monitro perfformiad safonau penodol, ac yn rhoi adborth am y perfformiad i'r byrddau iechyd. Mae arweinwyr byrddau iechyd ar gyfer yr arbenigeddau penodol yn gyfrifol am lunio a rheoli cynlluniau gweithredu pan fo'r perfformiad yn is na'r safon gyda'r nod o wella'r safonau yn eu bwrdd iechyd. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cwrdd yn rheolaidd â chydlynwyr sgrinio cyn geni y byrddau iechyd, arweinwyr llywodraethu rhaglenni sgrinio i famau a phlant ac arweinwyr obstetreg uwchsain yn gyson i drafod perfformiad a rhoi cymorth.

Adroddiad dangosyddion perfformiad chwemisol

Yn wahanol i'r rhaglenni sgrinio eraill ar sail poblogaeth yng Nghymru, nid yw sgrinio cyn geni yn cael ei ariannu, na'i reoli'n uniongyrchol, gan

Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn hytrach caiff ei ddarparu a'i ariannu o fewn y byrddau iechyd. Caiff dangosyddion perfformiad y byrddau iechyd eu cyflwyno i Sgrinio Cyn Geni Cymru bob chwe mis, ym mis Ebrill a mis Hydref. Maent yn monitro

All Wales - Six Monthly Report Summary						
April 2019						
Service Description Antenatal screening is undertaken to detect defined serious conditions present in either the mother or baby that are likely to have an adverse effect on the health of either, and for which an effective intervention is available and warranted. For some conditions, preventive treatment is available during the antenatal period or after delivery to improve the baby's health. For others, the condition can be identified during the antenatal period but no preventive treatment is available. With high quality counselling, women can make an informed choice about whether they wish to continue the pregnancy and appropriate support, depending on their ultimate choice, can be arranged.						
Indicator	Name	Anticipated Standard	Oct-17	Apr-18	Oct-18	Apr-19
AWW-7	Communicable disease screening: Results provided to women	>=90% by 15 working days				
AWW-11a	Completion of Down's syndrome screening request cards - Combined	>=98%				
AWW-11b	Completion of Down's syndrome screening request cards - Quad	>=98%				
AWW-15	Neonatal hepatitis B vaccination (First dose only)	100%				
AWW-16	Postnatal Anti D given	100%				
AWW-23	Dating of early pregnancy scan	>=95%				
AWW-24	Sonographer competence	>=9%				
AWW-25	Re-offer of HIV screening	100%				
AWW-26	Timeliness of testing of biological father of the baby for sickle cell and thalassaemia	90% (Applicable from October 2018)				
AWW-27	Timeliness of neonatal tests for sickle cell and thalassaemia	100% (Applicable from October 2018)				
AWW-28	Record Keeping: Antenatal Blood Group & Antibodies Screening Result Taken/Recorded in the Local Maternity Record	100%				
AWW-28a	Record Keeping: Antenatal Blood Group & Antibodies Screening Results Recorded in the Local Maternity Record	100%				
AWW-29	AT not achieved at early pregnancy dating scan for combined screening	<7%				

perfformiad y bwrdd iechyd yn erbyn safonau Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae'r dangosyddion perfformiad yn cael eu hadrodd yn ôl i Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus y byrddau iechyd, y pennaeth bydwreigiaeth, yr arweinwyr llywodraethu rhaglenni sgrinio i famau a phlant, y cydlynwyr sgrinio cyn geni a'r arweinwyr obstetreg uwchsain i'w huwchgryfeirio o fewn byrddau iechyd unigol. Mae Cydlynwyr Rhanbarthol Sgrinio Cyn Geni Cymru ac arweinwyr proffesiynol ym mhob bwrdd iechyd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod a darparu cefnogaeth mewn perthynas â'r adroddiad dangosyddion perfformiad. Fodd bynnag, oherwydd materion casglu data ni adroddwyd ar Ddangosyddion Perfformiad Hydref 2018 wrth i waith i ymchwilio i broblemau casglu data gael ei wneud.

Gweithdy ar ddangosyddion perfformiad

Yn ystod rowndiau adrodd ar ddangosyddion perfformiad 2017-18 daeth yn amlwg bod anghysondebau o ran y data a gafwyd gan fyrddau iechyd, a adlewyrchwyd ledled Cymru.

Ym mis Medi 2018 hwylusodd Sgrinio Cyn Geni Cymru weithdy amlldisgyblaethol i drafod problemau casglu data byrddau iechyd ac atebion posibl.

Ymhlith rhai o'r materion amlffactoraidd roedd:

- Defnydd anghyson o godau ac ymadroddion uwchsain
- Profion gwaed a sganiau uwchsain sgrinio yn cael eu cyflawni ar wahanol adegau
- Amrywiad o ran dulliau byrddau iechyd o gofnodi a storio data
- Gwahaniaethau mewn prosesau lleol o gasglu data

Yn dilyn y cyfarfod ar gyfer Cymru gyfan, lluniodd Sgrinio Cyn Geni Cymru arfarniad opsiynau i'w drafod ymhellach gyda'r byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn parhau i weithio ar y cyd â byrddau iechyd i sicrhau bod y data a ddarperir mor gadarn â phosibl.

5. Rhaglenni penodol

5.1.1 Sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau

Ar 30 Ebrill 2018 gweithredodd pob bwrdd iechyd yng Nghymru y cynnig o sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau i fenywod rhwng 11 a 14 wythnos o feichiogrwydd gan ddefnyddio'r prawf cyfunol ar gyfer beichiogrwydd unigol a gefeilliaid. I fenywod y mae eu sgan beichiogrwydd cynnar yn hwyrach na 14 wythnos, neu os na cheir mesuriad tryloywder y gwegil, cynigir y prawf sgrinio pedwarplyg ar ôl 15 i 18 wythnos o feichiogrwydd. Dechreuodd byrddau iechyd gynig NIPT (prawf cyn geni anfewnwthiol) fel prawf wrth gefn ar gyfer menywod â beichiogrwydd unigol sydd â chanlyniad tebygolrwydd uwch o naill ai'r prawf cyfunol neu bedwarplyg, neu brawf ymwithiol. Cafodd y prosiect ei arwain gan Sgrinio Cyn Geni Cymru ac roedd Bwrdd Prosiect NIPT yn cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a sefydliadau'r trydydd sector.



Cyn gweithredu'r cynnig sgrinio mewn byrddau iechyd, wnaeth aelodau o Fwrdd Prosiect NIPT waith ar nifer o ffrydiau gwaith:

Diweddarau

Polisiâu, Safonau a Phrotocolau
Sgrinio Cyn Geni Cymru
Taflenni gwybodaeth sgrinio i fenywod

Cefnogi

Labordy Sgrinio Syndrom Down Cymru Gyfan
a'r Labordy Geneteg Meddygol Cymru Gyfan i sicrhau gweithredu llwyddiannus
Tîmau gweithredu'r byrddau iechyd cyn ac ar ôl cyflwyno'r cynnig sgrinio

Datblygu

Strategaeth addysg ac adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol

Paratoi

Taflen wybodaeth i weithwyr proffesiynol sy'n trafod sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau gyda rhywun sy'n disgwyl gefeilliaid

Llyfryn gwybodaeth i fenywod sydd â thebygolrwydd uwch o gael babi ag annormaledd cromosomaidd

5.1.2 Gwaith cyfweliadau a grwpiau ffocws

Yn 2019 cyn ailgyhoeddi'r daflen cyn prawf `Sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau yn ystod beichiogrwydd' ceisiodd Sgrinio Cyn Geni Cymru gasglu barn menywod ar y wybodaeth cyn y prawf a roddir cyn cael cynnig prawf sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau, ac, yn fwy penodol, y cyflyrau meddygol sy'n gysylltiedig â syndrom Down.

Gwnaed hyn drwy weithio ar y cyd â thîm Ymgysylltu â Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r tîm SET yn gweithio ar draws yr holl raglenni sgrinio cenedlaethol yng Nghymru a chydag amrywiaeth o bartneriaid mewn perthynas â sgrinio.

Cafodd menywod eu recriwtio i grwpiau ffocws drwy bartneriaid mewn byrddau iechyd ac yn y trydydd sector. Gofynnwyd i bob un o'r grwpiau ffocws ystyried tair fersiwn ychydig yn wahanol o'r daflen wybodaeth cyn prawf.



Canfyddiadau a chymau gweithredu'r grŵp ffocws

Canfyddiadau	Camau gweithredu
Roedd consensws nad oedd angen cynnwys manylion ystadegol am ddementia yn y daflen.	Mae gwybodaeth feddygol am ddementia wedi'i thynnu o'r fersiynau sydd newydd eu hargraffu o'r daflen.
Gyda gwybodaeth gymhleth, fel yr hyn a geir yn y daflen bresennol, awgrymwyd y gallai gwybodaeth haenog gyda llai o fanylion ar ddechrau'r llwybr sgrinio a chyfeirio at wybodaeth fanylach ar gyfer y rhai sydd ei hangen fod yn opsiwn a ffefrir.	Bydd Sgrinio Cyn Geni Cymru yn gwneud gwaith pellach i ymgysylltu â menywod beichiog ledled Cymru ynghylch y daflen wybodaeth cyn y prawf, Sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau yn ystod 2019-2020 i drafod hyn ymhellach.
Nid oedd consensws clir o ran y wybodaeth feddygol	Mae pob un o'r cyfranogwyr yn y cyfarfodydd grŵp ffocws wedi cael gwybod am y camau gweithredu ar gyfer canlyniadau. Mae gwaith ymgysylltu pellach wedi'i gynllunio ar gyfer 2019-20 i egluro hyn ymhellach

5.1.3 Gwerthusiad o'r prosiect Prawf Cyn Geni Anfewnwthiol (NIPT)

Argymhellodd UKNSC y dylid sgrinio gan ddefnyddio'r prawf NIPT fel cyflwyniad gwerthusiad a mynd i'r afael â chwestiynau penodol yn ystod gwerthusiad o'r prosiect.

Cytunodd y Bwrdd Gwerthuso'r Prosiect ar fformat gwerthuso i fynd i'r afael â'r cwestiynau a godwyd gan UKNSC.

Mae'r Bwrdd Gwerthuso wedi argymhell pa ddata sydd angen eu casglu gan y labordai a rhannau eraill o'r gwasanaeth i ateb cwestiynau'r gwerthusiad. Cynhaliwyd adolygiad hefyd o'r adnoddau ar gyfer menywod, i gynnwys y ffilm fer ar syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau a'r llyfryn Gwybodaeth i fenywod a gafodd gynnig fwy o brofion am gyflyrau cromosomaidd posibl.

5.1.4 Adolygiad o'r wybodaeth i fenywod

Adolygiad o'r ffilm fer Syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau.



Cynhyrchodd Sgrinio Cyn Geni Cymru [ffilm fer](#) er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i fenywod am sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau ac i'w helpu i benderfynu a ddylent gael y prawf sgrinio ai peidio. Cynhaliwyd arolwg

yn gofyn am farn menywod ar y ffilm fer ym mhob clinig cyn geni yng Nghymru dros gyfnod o wythnos yn ystod mis Mehefin 2018.



canran y menywod a atebodd yr holiadur a oedd o'r farn bod y ffilm fer yn hawdd i'w deall



canran y menywod o nododd fod y ffilm fer yn cynnwys gwybodaeth i'w helpu i benderfynu a oeddent am gael y prawf sgrinio.



canran yr ymatebwyr a atebodd fod y cwestiynau ar ddiwedd y ffilm fer yn ddefnyddiol iddynt wrth wneud penderfyniad



canran y menywod a ddywedodd y byddent yn argymhell y ffilm fer hon i ffrind neu aelod o'r teulu a oedd yn feichiog.


Adolygiad o'r Wybodaeth i fenywod a gafodd gynnig fwy o brofion am gyflyrau cromosomaidd posibl

Cafodd y llyfryn hwn gan Sgrinio Cyn Geni Cymru ei ysgrifennu ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol i'w ddarparu i fenywod ar ôl y drafodaeth lafar lle roedd gan y fenyw debygolrwydd uwch o gael babi sy'n cael ei effeithio gan gyflwr cromosomaidd. Gofynnodd Sgrinio Cyn Geni Cymru i weithwyr iechyd proffesiynol a oedd yn defnyddio'r 'prawf ar gyfer cyflyrau cromosomaidd posibl' i adolygu defnyddioldeb y llyfryn gyda menywod bob tro roeddent yn defnyddio'r llyfryn dros gyfnod o dri mis (Gorffennaf-Medi 2018).

Cafodd ei ysgrifennu fel llyfryn generig ac mae'n cynnwys penodau sy'n berthnasol i rai cyflyrau a phroffion. Roedd y llyfryn yn cynnwys gwybodaeth newydd am NIPT a diwygiad o'r wybodaeth ar gyfer profion ymwthiol.



canran y gweithwyr iechyd proffesiynol a oedd o'r farn bod y llyfryn yn hawdd i'w ddefnyddio



Gofynnodd Sgrinio Cyn Geni Cymru i'r gweithwyr iechyd proffesiynol roi unrhyw adborth ar y llyfryn a gawsant gan fenywod.

Ymhlith rhai o'r sylwadau a gafwyd roedd,

Mae'n hawdd iawn nodi adrannau perthnasol

Llawer o wybodaeth, wedi digalonni ychydig gan faint y llyfryn

Yn defnyddiol i'w ddarllen gartref yn dilyn trafodaethau

Cynhelir gwerthusiad pellach o'r llyfryn ar ddiwedd 2019.

5.2. Clefyd y crymangelloedd a thalasaemia

Archwiliad o gerdyn cais sgrinio ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia

Cynhaliodd Sgrinio Cyn Geni Cymru archwiliad blynyddol o gwblhau'r cerdyn cais, ar ôl nodi tuedd o ran camgymeriadau sy'n cael eu gwneud wrth gwblhau cerdyn cais clefyd y crymangelloedd a thalasaemia.

Gwnaed yr archwiliad ciplun yn labordai'r byrddau iechyd ym mis Mehefin 2018 a dadansoddwyd y wybodaeth gan Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae teclyn addysgu wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer cydlynwyr sgrinio cyn geni, i'w ddefnyddio yn y byrddau iechyd i'w helpu i lenwi'r cardiau cais yn gywir

Completion of Antenatal Sickle Cell and Thalassaemia Screening Request Card

Lead professional/hospital
Clear details of where to send the report are required. Please state if Royal Glamorgan or Royal Gwent. RGH is not sufficient as a location.

Patient ID
Clear identification of the patient is required to ensure results are attributed to the correct individual

Tick one request box only
Ticking the one correct box: is vital to be able to determine the level of screening that is undertaken. Ticking the incorrect box may lead to a potentially at risk unborn baby not being detected.

Tick this box if:
the woman declines sickle cell and thalassaemia screening. A FBC only will be performed.

Date of collection
It is essential to date the sample for the laboratory to test in a timely manner.

Both boxes:
• requested by and
• signature
are required to be completed.

Tick this box if:
the woman and father of the baby are from UK or Ireland and the woman has consented to further testing if MCH<27

Tick this box if:
• family origin of mother or father of the baby non-UK or Ireland, or adopted, or
• unknown-egg donor or sperm donor or
• family history of sickle cell or thalassaemia

Both mother and father of the baby ethnic origins must be documented by country to assess the possible significance of the findings. Do not use the term "Caucasian". If the ethnic origins are unknown please document "unknown".

Form Fields:
Blood Sciences Ysbyty Bronglais Hospital Hywel Dda University Health Board
Hospital number: NHS number: Sample type: ☐ Blood ☐ FBC only ☐ FBC and sickle cell & thalassaemia screening (parental consent required)
Surname: Forename(s): Other: ☐ Urine ☐ CSF
Date of birth: Gender: Male / Female Clinical information:
Patient address: Private ☐ GP2 ☐ RSC ☐ Fasting status: FASTING / NON-FASTING
Consultant / GP: ☐ USE ☐ FBC ☐ Thyroid Function Test On T4? Yes/No
Send reports to: ward/surgery: ☐ LFT ☐ ESR ☐ Tdap/Tetanus T Has also done: ☐ JCRP ☐ Sickle screen ☐ Sickle cell & thalassaemia screen (parental consent required)
Barcode: ANCB ANTE NATAL CLINIC
Requested by: Signature: Date: Sample time:
Blood sample: Yes/No

Ymweliadau â labordai hemoglobinopathi yng Nghymru

Ymwelodd Sgrinio Cyn Geni Cymru â phob labordy haemoglobinopathi y byrddau iechyd yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar

Archwiliad o glefyd y crymangelloedd a thalasaemia ar gyfer y bwrdd iechyd


E-bostio generig o ganlyniadau a chamgymeriadau i'r bwrdd iechyd

Newidiadau i safonau a phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru

Profion newyddenedigol ar fabanod risg uchel

Algorithm mynychder isel a ddefnyddir yng Nghymru

Low prevalence algorithm for use in Wales



* Refer analytical results to consultant for an opinion on the need for a clinical referral.

** Consider high risk if any family origins in China (including Hong Kong), Taiwan, Thailand, Cambodia, Laos, Vietnam, Burma (Myanmar), Malaysia, Singapore, Indonesia, Philippines, Cyprus, Greece, Sardinia, Turkey, or if ethnic/family origin uncertain/unknown. Reconsider low risk couples if fetal anaemia/hydrops seen on ultrasound scanning or if there is a family history of hydrops fetals.


*** Low risk or high risk as determined by the ASW family origin question. Note if a baby's biological father is in a high risk family origin group, test the mother's sample regardless of her family origins.

In all cases consider co-existing α^0 thalassaemia if both parents are from a high risk area (***) and MCH < 25 pg.

$\blacklozenge$ Consider co-existing beta thalassaemia.

Adolygiad o'r llwybr cyn geni a newyddanedig i fabanod y nodwyd eu bod mewn perygl o gael anhwylderau hemoglobinopathi

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â chydlynwyr sgrinio cyn geni'r byrddau iechyd, Geneteg Meddygol Cymru Gyfan a'r Rhwydwaith Newyddenedigol i lunio llwybr Cymru Gyfan i nodi, atgyfeirio a phrofi babanod y gwelwyd eu bod mewn perygl o hemoglobinopathi difrifol. Mae'r llwybr hwn bellach ar gael ar wefan Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru.



5.3 Sgrinio grŵp gwaed a gwrthgyrff

Profion DNA di-gell mewn menywod sy'n RhD negatif ac sydd heb eu sensiteiddio yn ystod beichiogrwydd

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cydweithio â Gwasanaeth Gwaed Cymru ar brosiect i bennu cwpas a datblygu llwybr gwell ar gyfer prawf DNA di-gell y ffetws ar gyfer pob menyw feichiog yng Nghymru sy'n RhD negatif ac nad yw eisoes wedi'i sensiteiddio i D antigen.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi dechrau trafodaethau cychwynnol gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru ynghylch y prosiect hwn a bydd yn parhau i gydweithio â Gwasanaeth Gwaed Cymru a byrddau iechyd yng Nghymru i bennu cwpas dichonoldeb cyflwyno gwell llwybr.

5.4 Clefydau Trosglwyddadwy

Archwiliad o ganlyniadau positif/adweithiol ar gyfer hepatitis B yn ystod beichiogrwydd

Yn 2017 gweithredodd Sgrinio Cyn Geni Cymru brotocol i argymhell profion DNA (llwyth feirysol) ar gyfer hepatitis B ar adeg y sampl cadarnhau i bob menyw feichiog a oedd wedi cael diagnosis o hepatitis B. Roedd hyn er mwyn nodi'r babanod 'mewn perygl' fel y gellid cynnig triniaeth i fam â llwyth feirysol uchel yn y trydydd trimis, gan leihau'r risg o drosglwyddo i'w babi. Ar ôl gweithredu, cynhaliwyd archwiliad o samplau cyn geni, hepatitis B positif a dderbyniwyd yn labordy firoleg Iechyd Cyhoeddus Cymru Caerdydd. Roedd yr archwiliad o samplau a dderbyniwyd yn y labordy rhwng mis Hydref 2017 a mis Tachwedd 2018.

- Datblygodd Sgrinio Cyn Geni Cymru gwestiynau archwilio ar gyfer pob sampl cyn geni a dderbyniwyd oedd â chanlyniadau positif ar gyfer hepatitis B neu hepatitis B adweithiol.
- Cynhaliwyd archwiliad a dadansoddiad o'r ceisiadau am samplau gan labordy firoleg Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru
- Bydd canlyniadau'r archwiliad yn cael eu rhannu â:
 - byrddau iechyd, pennaeth bydwreigiaeth, cydlynwyr sgrinio cyn geni ac arweinwyr llywodraethu rhaglenni sgrinio i famau a phlant
 - labordai firoleg/microfiroleg yng Nghymru
 - timau gastroenteroleg/hepatoleg byrddau iechyd

5.5 Uwchsain

Adolygiad o lenyddiaeth ar efaill diflanedig ac argymhellion

Diweddarwyd y canllawiau yn 2018 i adlewyrchu'r newidiadau i'r rhaglen sgrinio ar gyfer syndrom Down.


Mae'r canllawiau bellach yn cynnwys gwybodaeth am sgrinio ar gyfer syndrom Edwards a syndrom Patau a sgrinio am y tri chyflwr ar gyfer rhywun sy'n feichiog gyda gefeilliaid.

Adroddiad chwemisol y Gwasanaeth Cefnogi Sicrwydd Ansawdd Down (DQASS)

Rhaid i bob prawf sgrinio cyfunol ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau gynnwys cerdyn cais ategol gan gynnwys cofnodi mesuriad CRL (mesuriad coron i ffolen) ac NT



(tryloywder gwegil) y ffetws . Ceir y mesuriadau hyn drwy uwchsain gan sonograffydd ar y diwrnod y cesglir sampl gwaed y fam. Mae gan bob sonograffydd god adnabod unigryw, sy'n cael ei gyflwyno ynghyd â'r mesuriadau ar yr un cerdyn cais i Labordy Sgrinio Down Cymru Gyfan. Mae Labordy Sgrinio Syndrom Down Cymru Gyfan yn anfon yr holl ddata, gan gynnwys cod y sonograffydd, at DQASS bob chwe mis. Mae DQASS yn cynhyrchu plot ar gyfer pob sonograffydd unigol sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen NT o'r wybodaeth hon. Cyflwynwyd adroddiad ar Gylch 24 a 25 DQASS i'r byrddau iechyd yn 2018- 2019.



Pwysleisiodd y newid statws o ran y faner yng nghylch 25 y gofyniad i sonograffyddion gadw eu plotiau diagnostig eu hunain ar gyfer gwaith byrddau iechyd i fonitro delweddau uwchsain a phlotiau diagnostig NT. Roedd yr hyn a ddysgwyd mewn perthynas â newid statws y faner hefyd yn nodi y gall fod angen addasu rhai o osodiadau'r peiriant uwchsain ymhellach. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi gwahodd arbenigwyr cymwysiadau peiriannau uwchsain i gyfarfod ar y cyd sonograffwyr arweinwyr NT ac obstetreg Sgrinio Cyn Geni Cymru 2019 i gyflwyno "Sut i gael y delweddau gorau o'ch peiriannau".

Adolygu delweddau i gydymffurfio ag adroddiad DQASS

Cynhelir adolygiad o ddelweddau uwchsain bob chwe mis. Mae cydlynnydd sgrinio uwchsain obstetreg Sgrinio Cyn Geni Cymru yn adolygu ac yn asesu'r tri phâr o ddelweddau coron i ffolen (CRL) a thryloywder gwegil (NT) ar gyfer pob un o sonograffwyr arweiniol y byrddau iechyd. Yn ei dro, bydd yr arweinydd NT, ar ôl derbyn adroddiad chwemisol DQASS, yn asesu ac yn adolygu plot y sonograffydd unigol ac yn ei adolygu gyda'r sonograffydd gan wneud cymariaethau gyda'r cylch blaenorol.





Mae'r adolygiad yn dilyn meini prawf caeth sy'n asesu ansawdd y sganiau sy'n cael eu cynnal ar gyfer y rhaglen sgrinio.

Hyfforddi ac archwilio parhaus rôl arweinwyr cardiaidd ac arweinwyr obstetreg

Mae gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru arweinydd obstetreg uwchsain, arweinydd tryloywder y gwegil ac arweinydd uwchsain cardiaidd y ffetws. Maent yn monitro ac yn archwilio eu priod agweddau ar y rhaglen sgrinio uwchsain cyn geni. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cefnogi'r rolau hyn. Yn ystod amserlen yr adroddiad hwn, mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi darparu hyfforddiant ymarferol clinigol seiliedig ar gleifion gan Ymgynghorwyr Cardioleg y Ffetws yng Nghymru ar ddelweddau cardiaidd ac arhythmia'r ffetws. Maent hefyd wedi cael hyfforddiant ar hwyluso archwiliadau anomaledd.

Modiwl cofnodi RadIS

System wybodaeth electronig yw modiwl cofnodi obstetreg RadIS ar gyfer cofnodi data radioleg ac yn rhaglen Sgrinio Cyn Geni Cymru mae hyn yn cael ei



ddefnyddio mewn dau brawf sgrinio obstetreg uwchsain: y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar a'r sgan anomaledd y ffetws. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cydweithio â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i ddatblygu'n

barhaus y modiwl cofnodi, i sicrhau bod cysondeb yn y cofnodi ledled Cymru, ac i hwyluso casglu a dadansoddi data at ddibenion archwilio. Fodd bynnag, ceir gwahaniaethau bach yn y templedi a ddefnyddir mewn rhai o'r byrddau iechyd yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae system fwy diweddar o RadIS yn cael ei rhoi ar waith ledled Cymru. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r system ac yn sicrhau bod sonograffwyr yn defnyddio teclyn cofnodi CARIS o fewn y prawf sgrinio sy'n galluogi'r anomaleddau uwchsain a ganfyddir ar y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar a'r sgan anomaledd i gael eu hanfon yn uniongyrchol at y Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid (CARIS) sy'n arwain at gofnodi cynnar a chywirach.

Archwiliad o ddelweddau anomaledd y ffetws

Canolbwyntiodd ail archwiliad o ddelweddau uwchsain ar y sgan anomaledd ac fe gynhaliwyd hyn ym mis Mawrth 2018. Roedd y delweddau a archwiliwyd yn:

- Mesur cylch y pen (HC),
- Hyd asgwrn y forddwyd (FL) a
- rhan ardraws yr abdomen ar lefel yr arennau ar y sgan anomaledd.



Gofynnwyd i bob sonograffydd a oedd yn gwneud sganiau anomaledd gymryd rhan yn yr archwiliad hwn. Aseswyd y delweddau gan yr arweinydd obstetreg uwchsain ar bob safle yn erbyn y profforma a ddarparwyd gan Sgrinio Cyn Geni Cymru a dychwelwyd y canlyniadau i Sgrinio Cyn Geni Cymru. Asesodd cydlynnydd obstetreg uwchsain Sgrinio Cyn Geni Cymru'r arweinwyr obstetreg uwchsain gan ddefnyddio'r un meini prawf.

Roedd gwelliannau o ran sicrhau mesuriadau digonol ym mhob categori a archwiliwyd. Dyma'r argymhellion o'r adroddiad:

- Bod pob sonograffydd sy'n gwneud sganiau anomaledd yng Nghymru yn gwneud archwiliadau cyson o'r delweddau a'r mesuriadau hyn
- Mae arweinwyr obstetreg uwchsain y Byrddau Iechyd yn cymryd camau priodol yn dilyn canlyniadau eu harchwiliadau eu hunain



Llwybrau Arsylwi Uwchsain: coluddyn ecogenig ynysig, ymlediad y pelfis arennol ynysig a fentrigwlomegali ynysig

Yn dilyn ymgynghoriad, dyfeisiwyd llwybrau Cymru gyfan ar gyfer cofnodi arsylwadau uwchsain ynysig. Drwy adolygu'r data, o astudiaeth ddilynol

Astudiaeth Mamau a Phlant Cymru a CARIS, nodwyd yr arfer gorau ar gyfer arsylwadau uwchsain perthnasol. Lluniwyd taflenni gwybodaeth i fenywod, llwybrau a phrotocolau archwilio i'w defnyddio yn y byrddau iechyd. Dechreuwyd gweithredu'r llwybrau newydd ar 1 Awst 2018.

Bydd Sgrinio Cyn Geni Cymru yn archwilio'r delweddau o'r holl achosion o goluddyn ecogenig a gofnodwyd am gyfnod o 12 mis. Y nod yw sicrhau ansawdd cywirdeb delwedd y coluddyn ecogenig a nodir ar y sgan anomaledd.

Enghraifft o goluddyn ecogenig



Enghraifft o ddelwedd anghywir



Mae'r cynnydd yn rhy uchel yn y ddelwedd yma ac mae angen ei gwtogi i ddangos y coluddyn ecogenig

6. Casgliad

Cafwyd blwyddyn brysur iawn gyda Sgrinio Cyn Geni Cymru yn canolbwyntio ar adolygu Polisiâu, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru a datblygu pecyn addysg yn sgil hynny er mwyn llywio'r dystiolaeth o amgylch y newidiadau.

Gweithredwyd y cynnig sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau i gynnwys beichiogrwydd gefeilliaid a chynnig NIPT fel prawf wrth gefn i fenywod â beichiogrwydd unigol lle nodir bod canlyniad tebygolrwydd uwch. Mae'r broses o werthuso'r gwaith o gyflwyno'r cynnig NIPT wedi dechrau ac mae'n mynd rhagddi. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn yr adolygiad o wybodaeth cyn prawf a bydd yn datblygu hyn ymhellach.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi dechrau trafodaethau hefyd i bennu cwrdd a datblygu llwybr ar gyfer prawf DNA di-gell y ffetws ar gyfer pob menyw feichiog yng Nghymru sy'n RhD negatif ac nad yw eisoes wedi'i sensiteiddio i D antigen.

Mae gwaith rheolaidd Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi parhau gan gynnwys monitro'r gwaith sgrinio, cefnogi cydlynwyr sgrinio cyn geni yn y byrddau iechyd, arweinwyr llywodraethu rhaglenni sgrinio i famau a phlant a sonograffwyr arweiniol. Yn ogystal, cynhaliwyd archwiliadau cyson, lluniwyd a chyflwynwyd deunyddiau addysg gan gynnwys rhywfaint o hyfforddiant uwchsain ymarferol.

Atodiad 1

Organisational Structure 2018-2019 ASW within Maternal and Child Screening (MAC)

